**ATODIAD I'R HYSBYSIAD RHYBUDDIO DILYNOL A GYHOEDDWYD YN DILYN AROLYGIAD O WASANAETHAU PLANT CYNGOR SIR POWYS**

**Diben**

Dyma atodiad i'r Hysbysiad Rhybuddio Dilynol a roddwyd i Gyngor Sir Powys ar 15 Ionawr 2018 dan adran 151 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

**Camau pellach sy'n ofynnol gan Gyngor Sir Powys i fynd i'r afael â'r seiliau dros ymyrryd a'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio:**

(a) Ymateb i'r canfyddiadau a amlinellwyd yn llythyr Arolygiaeth Gofal Cymru at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol Dros Dro ac atodiad un, dyddiedig 5 Ebrill 2018, a gyhoeddwyd yn dilyn ymweliad monitro yr Arolygiaeth ym mis Ebrill 2018. Dylai'r ymateb gynnwys camau gweithredu ac amserlenni ar gyfer ateb pob maes o bryder a nodwyd yn atodiad un, a dylid ei anfon at yr Arolygiaeth erbyn 30 Ebrill 2018;

(b) Cydymffurfio â'r Cynllun Gwella diwygiedig, fel y'i cyflwynwyd i Arolygiaeth Gofal Cymru ar 23 Ionawr 2018, i sicrhau bod y camau gwella yn cael eu cyflawni o fewn y cyfnodau cydymffurfio a nodwyd yn y cynllun;

(c) Parhau i weithredu'r fframwaith sicrhau ansawdd, a oedd yn ofynnol drwy baragraff (d) o'r Hysbysiad Rhybuddio Dilynol, i wella cysondeb a safonau arferion rheng flaen yn y sir. Rhaid i'r awdurdod fedru darparu tystiolaeth sylweddol i ddangos bod y fframwaith yn cael ei roi ar waith erbyn 30 Mehefin 2018;

(d) Parhau i drefnu i'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd newydd, a oedd yn ofynnol drwy baragraff (e) o'r Hysbysiad Rhybuddio Dilynol, oruchwylio camau gweithredu'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a chynnig her adeiladol a throsolwg strategol o gamau'r Cyfarwyddwr mewn perthynas â phob swyddogaeth gwasanaethau cymdeithasol sy'n ymwneud â phlant;

(e) Parhau i ddarparu adroddiadau misol gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol i'r Bwrdd Gwella a Sicrwydd ac Arweinydd y Cyngor ac anfon copi at y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol ac Integreiddio, Llywodraeth Cymru, a oedd yn ofynnol drwy baragraff (f) o'r Hysbysiad Rhybuddio Dilynol.

Mae gan y Bwrdd Gwella a Sicrwydd newydd rôl ddeuol sef dwyn Cyngor Sir Powys i gyfrif am wella yn ogystal â chynnig cyngor i wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Cyngor yn gyfan.

**Camau Gweithredu y mae Gweinidogion Cymru yn bwriadu eu cymryd os bydd yr awdurdod lleol yn methu â gweithredu fel sy'n ofynnol**

Os na fydd Cyngor Sir Powys yn cyflawni'r camau gweithredu sy'n cael eu nodi yn foddhaol o fewn y cyfnod a bennwyd, bydd Gweinidogion Cymru yn ymyrryd yn fwy uniongyrchol drwy un neu fwy o'r dulliau ymyrryd y darperir ar eu cyfer dan adrannau 152-161 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.